

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

BIL ARDRETHU ANNOMESTIG (MEITHRINFYDD PLANHIGION)

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Ardrethu Annomestig (Meithrinfeydd Planhigion) (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 23 Mai 2018. Gellir cael copi o'r Bil yn: <https://services.parliament.uk/Bills/2017-19/nondomesticratingnurserygrounds.html>

Amcan(ion) Polisi

3. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi mai ei hamcan polisi yw sicrhau y dylai tir ac adeiladau meithrinfeydd planhigion fanteisio ar yr esemptiad amaethyddol ar gyfer ardrethi busnes.
4. Ers o leiaf 1928, mae esemptiad cyffredinol wedi bodoli ar safleoedd amaethyddol mewn perthynas ag atebolrwydd i dalu ardrethi annomestig. Asiantaeth y Swyddfa Brisio sy'n gyfrifol am weithredu'r esemptiadau i hereditamentau sy'n gymwys i'w cael drwy beidio â'u cynnwys ar y rhestr ardrethu annomestig. Arfer yr Asiantaeth ers amser hir yw esemptio adeiladau sydd yn (neu sy'n ffurfio rhan o) erddi marchnad ac adeiladau sydd yn (neu sy'n ffurfio rhan o) feithrinfeydd.
5. Daeth y Llys Apêl i'r casgliad yn achos Tunnel Tech Ltd v Reeves (VO) [2015] EWCA Civ 718 nad oedd esemptio adeiladau sy'n feithrinfeydd (nad ydynt yn cael eu meddiannu gan weithredoedd amaethyddol na'u defnyddio at y diben hwnnw yn unig ar dir amaethyddol) yn cymhwyso'r gyfraith yn gywir a bod adeiladau ar safleoedd meithrinfeydd (gan gynnwys twneli poli) nad ydynt yn cael eu defnyddio mewn cysylltiad â thir amaethyddol yn gymwys i dalu'r ardreth. Mae hyn yn gwrthdroi dull blaenorol yr Asiantaeth o fynd i'r afael ag asesiadau ar gyfer y mathau hyn o eiddo.
6. Bydd Atodlen 5 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn cael ei diwygio er mwyn galluogi Asiantaeth y Swyddfa Brisio i barhau i esemptio tir ac adeiladau ar safleoedd meithrinfeydd rhag ardrethi annomestig gan sicrhau y bydd y gyfraith yn cyd-fynd unwaith eto â'r arfer flaenorol.

Crynodeb o'r Bil

7. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG).

8. Mae'r Bil yn diwygio Atodlen 5 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 er mwyn esemptio adeiladau sydd yn feithrinfeydd neu sy'n ffurfio rhan ohonynt os cânt eu defnyddio'n unig mewn cysylltiad â gweithrediadau amaethyddol yn y feithrinfa. Mae hyn yn sicrhau y bydd talwyr ardrethi ar gyfer hereditamentau o'r fath yn parhau i beidio â thalu ardrethi annomestig ac y bydd y gyfraith yn cyd-fynd ag arfer flaenorol hirsefydlog Asiantaeth y Swyddfa Brisió a pholisi'r Llywodraeth.

Y darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

9. Cyflwynodd MHCLG Fil (Bil Ardrethu Annomestig (Meithrinfeydd Planhigion) 2017-19) ar 23 Mai sy'n gwneud y ddarpariaeth i adeiladau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer meithrinfeydd, neu sy'n ffurfio rhan ohonynt, gael eu hesemptio rhag ardrethi annomestig yng Nghymru a Lloegr.
10. Mae'r Bil yn diwygio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ac yn caniatáu i'r Asiantaeth ddefnyddio'r un dull o drin meithrinfeydd ag a ddefnyddiwyd cyn penderfyniad y Llys Apêl. Bwriadwyd cynnwys eiddo o'r fath yn yr esemptiad amaethyddol ac ystyrir ei bod yn annheg trin meithrinfeydd a gerddi marchnad yn wahanol ac mewn ffordd a allai arwain at anfantais gystadleuol. Mae'r Bil yn cynnwys dau gymal. Ceisir cydsyniad mewn cysylltiad â'r Bil yn ei gyfanrwydd gan ei fod yn ymwneud â Chymru.

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Ardrethu Annomestig (Meithrinfeydd Planhigion)

11. Mae'r posibilrwydd o wneud y newid hwn drwy Fil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wedi'i ddiystyru gan nad oes cyfle deddfwriaethol pendant ar gael ar hyn o bryd o fewn yr amserlen ofynnol. Yn ogystal â hynny, byddai defnyddio Bil Llywodraeth Cymru yn golygu y byddai dulliau prisio gwahanol yn cael eu defnyddio yng Nghymru a Lloegr am gyfnod, hynny yw hyd nes y byddai Bil Llywodraeth Cymru yn dod yn gyfraith. Nid yw hyn yn ddymunol ac nid oes modd ei gyfiawnhau.
12. Mae Bil Llywodraeth y DU yn darparu cyfle i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y fethodoleg prisio ardrethi annomestig yng Nghymru yn cyd-fynd â'r fethodoleg yn Lloegr mewn modd amserol.

Y goblygiadau ariannol

13. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau a fydd yn sicrhau y bydd meithrinfeydd planhigion yng Nghymru yn parhau i gael eu hesemptio rhag ardrethi annomestig. Gan nad yw eiddo o'r fath wedi bod yn ddarostyngedig i'r ardreth yn y gorffennol, nid oes unrhyw refeniw cysylltiedig wedi'i gasglu ac felly mae Trysorlys ei Mawrhydi wedi cytuno bod darpariaeth o'r fath yn niwtral o ran refeniw.
14. O dan y ddeddfwriaeth, bydd unrhyw berchnogion meithrinfeydd sydd wedi'u hasesu i'w cynnwys ar y rhestr o ganlyniad i ddyfarniad y Llys yn cael eu tynnu oddi arni, a bydd unrhyw berchnogion sydd wedi bod yn talu ardrethi

gan eu bod wedi'u cynnwys ar y rhestr yn gallu hawlio ad-daliad am y costau hynny. Yng Nghymru, bydd hyn yn cael ei gyfyngu i'r blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2017, gan mai dyna oedd dyddiad yr ailbrisiad diwethaf, a phryd y caewyd y rhestr berthnasol. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisió wedi nodi nad oes unrhyw eiddo o'r fath yng Nghymru ar hyn o bryd wedi'i asesu bod angen ei gynnwys ar y rhestr berthnasol.

Casgliadau

15. Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil DU hwn oherwydd amseru a chydlyniad. Mae natur ryngweithiol y systemau perthnasol yng Nghymru a Lloegr ar gyfer prisio at ddibenion ardrethu hefyd yn cefnogi i'r ddarpariaeth gael ei symud ymlaen ar yr un pryd ac yn yr un offeryn deddfwriaethol.

Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Mehefin 2018